**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Agenda**

**Dyddiad:** Dydd Iau 16 Hydref 2003
**Amser:** 9:30 am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd – 5 munud**

**Eitem lafar**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod, yn disgrifio ei bwrpas yn fras, ac yn gofyn am unrhyw ymddiheuriadau. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i nodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Gorffennaf 2003, ac y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**Eitem 2: Y Diweddaraf ac Adolygiad o'r Pwyntiau Gweithredu sy'n Codi o STD 02-03 - 5 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 03-03(01)

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r gwaith a wnaed hyd yma a'r gwaith sydd ar y gweill.

**Eitem 3: Cofrestr Buddiannau'r Aelodau – 5 munud**

**Eitem Lafar**

Bydd Clerc y Pwyllgor yn rhoi diweddariad bras i'r Aelodau ar Gofrestr Buddiannau'r Aelodau.

**Eitem 4: Y Seiri Rhyddion – 1 awr**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 03-03(02)

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y papur 'dewisiadau' a chytuno ar ffordd ymlaen.

**Eitem 5: Cod Ymddygiad Drafft – 30 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 03-03(03)

Bydd y pwyllgor am ystyried y Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'i gymeradwyo.

**Eitem 6: Rôl y Cynghorydd Annibynnol – 45 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 03-03(04)

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y papur 'dewisiadau' ar rôl y Cynghorydd Annibynnol. Bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried sut y gellir datblygu argymhellion Woodhouse ymhellach, mewn perthynas â rôl y Cynghorydd.

**Eitem 7: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 munud**

Dylai'r Pwyllgor gytuno y cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau, 20 Tachwedd. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn y broses o ddrafftio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor am 2002/03 i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi y gofynnwyd am amser yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Llawn ddechrau mis Rhagfyr er mwyn cael dadl ar yr Adroddiad Blynyddol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**